

# TEMTIAD IESU

Ar ôl i Iesu gael ei fedyddio yn Afon Iorddonen, dyma'r Ysbryd yn ei arwain allan i'r anialwch. Ar ôl peidio bwyta nac yfed dim am bedwar deg dydd a phedwar deg nos roedd e'n llwglyd iawn. Yna, daeth y diafol i'w demtio. Roedd y diafol eisio i Iesu ufuddhau iddo a gwneud i Iesu bechu. Ond roedd Iesu'n gwybod beth roedd y diafol eisio felly mi wnaeth ei hel o i ffwrdd.



**Dyma Iesu'n dweud, "Dos i ffwrdd Satan! Mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud: 'Addola'r Arglwydd dy Dduw, a'i wasanaethu e'n unig.'"**


Mathew 4:10

Pam oedd y diafol eisio i  
lesu ufuddhau iddo?


Pa rai o'r pethau yma sy'n helpu ni i orchfygu  
temptasiwn?




Bara



Dŵr



Y Beibl



Arian

# Gwers 8

## Temptiad Iesu

**Testun y Beibl:** Mathew 4:1-11

**Adnod allweddol:** Mathew 4:10

**Pwrpas:** Bydd y plant yn deall sut i orchfygu temptasiwn trwy ddilyn esiampl Iesu.

Nodwch os gwelwch yn dda

Cynlluniwch weithgareddau addas i'r plant yn eich grwp. Gall y gweithgareddau gael eu haddasu yn dibynnu ar faint, oed a gallu'r grwp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ayb.

### I Gwers

Cyn gweithio ar y daflen liwio, darllenwch yr adnodau o Mathew 4:1-11. Eglurwch y stori.

Ar ôl i Ioan fedyddio Iesu yn Afon Iorrdonen, dyma'r Ysbryd yn ei arwain allan i'r anialwch i gael ei demtio. Pam wnaeth Duw wneud hyn? Er mwyn dangos i holl bobl y byd fod Iesu wir yn Fab Duw (ei fod yn gwybod sut i wrthsefyll temptasiynau'r diafol), i ddangos ei sancteiddrwydd (wnaeth Iesu erioed bechu) ac er mwyn dangos i ni beth i'w wneud pan mae'r diafol yn ein temptio ni.

Wnaeth Iesu ddim bwyta nac yfed dim am bedwar deg dydd a phedwar deg nos felly roedd e'n llwglyd iawn. Yna, gwnaeth y diafol gymryd mantais o'i wendid a dod ato a dweud, "Os mai Mab Duw wyt ti, gwna i'r cerrig yma droi'n fara". Ond roedd yr Arglwydd Iesu'n gwybod beth roedd y diafol eisio felly dywedodd "Na! Nid bwyd ydy'r unig beth mae pobl ei angen i fyw, ond popeth mae Duw yn ei ddweud."

Daliodd y diafol i demtio Iesu. Aeth ag o i dwr ucha'r Deml a dweud "Os mai Mab Duw wyt ti, neidia i lawr o'r fan yma. Mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud

'Bydd Duw yn gorchymyn i'w angylion dy ddal yn eu breichiau, fel na fyddi'n

taro dy droed ar garreg.'" Ond roedd Iesu'n deall meddwl y diafol, felly dywedodd, "Mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud hefyd, 'Paid rhoi'r Arglwydd dy Dduw ar brawf.'" Ond roedd y diafol yn dal ati i'w demtio. Aeth ag o i gopa mynydd uchel iawn a dangos holl wledydd y byd a'u cyfoeth iddo. Meddai wrth Iesu, "Cei di'r cwbl gen i os gwnei di blygu i lawr i fy addoli i." Ond dyma Iesu'n ateb, "Dos i ffwrdd Satan! Mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud 'Addola'r Arglwydd dy Dduw, a'i wasanaethu e'n unig.'" Yna dyma'r diafol yn ei adael, a daeth angylion at Iesu i ofalu amdano. Gwnaeth Iesu ennill buddugoliaeth dros y diafol trwy ddefnyddio geiriau'r Beibl.

## **Pethau i'w cofio!**

1. Mae'r diafol yn sicr o dy demtio di pan wyt ti eisio byw i Dduw. E.e. pan wyt ti eisio gweddio, bod yn ufudd i dy rieni, ymddwyn yn dda ayb. Bydd y diafol yn trio cymryd mantais o dy wendidau. Os gwnaeth o wneud hynny efo Mab Duw, bydd yn siwr o wneud hynny efo ti.
2. Gwnaeth yr Arglwydd Iesu ateb y diafol bob tro efo adnod o'r Beibl. Darllena'r Beibl a dysgu rhai adnodau ar dy gof. Paid trio gorchfygu'r diafol yn dy nerth dy hun achos mi wnei di fethu. Defnyddia adnodau'r Beibl i'w hel i ffwrdd.
3. Gwnaeth y diafol drïo temptio'r Arglwydd Iesu trwy addo llawer o bethau iddo. Ond methodd. Bydd yn dy demtio di trwy gynnig pethau sy'n ymddangos yn ddymunol iawn. Os wyt ti'n gwybod beth mae Duw eisio gan ei blant, mi fyddi di'n gwybod pryd a sut bydd y diafol eisio dy dwyllo di.
4. Wnaeth Iesu ddim addoli'r diafol. Fel Iesu, dim ond Duw y dylet ti addoli.
5. Pan wnaeth y diafol fynd i ffwrdd, daeth angylion Duw at Iesu i ofalu amdano. Pan wyt ti'n ufudd i Dduw, bydd o'n gofalu amdant ti.
6. Gwnaeth Iesu ennill buddugoliaeth dros y diafol trwy wybod adnodau'r Beibl a bod yn ufudd i'w Dad nefol. Dyma'r unig ffordd i ti orchfygu'r diafol hefyd.

Er mwyn y plant iau, gallwch ddyfeisio stori fach am blentyn yn gwrthsefyll temptasiwn.

Gadewch i'r plant gwblhau'r daflen liwio.

## **II Gweithgareddau**

### **1 Yr Adnod Allweddol**

#### **a) Darllenwch yr adnod yn uchel:**

Dyma Iesu'n dweud, "Dos i ffwrdd Satan! Mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud: 'Addola'r Arglwydd dy Dduw, a'i wasanaethu e'n unig.'" Mathew 4:10

#### **b) Eglurwch yr adnod**

- Sut wnaeth Iesu ateb pan ofynnodd y diafol i Iesu ei addoli o?
- Sut fydd yn rhaid i chi ateb y diafol pan fydd yn trio eich temptio chi?

**c) Helpwch y plant i ddysgu'r adnod.**

**2 Cwestiynau adolygu i'r plant**

- Pam wnaeth yr Ysbryd Glân arwain Iesu i'r anialwch?
- Sawl gwaith wnaeth y diafol drïo temtio Iesu?
- Sut wnaeth Iesu ymateb i demtasiwn?
- Sut fedrwch chi wrthsefyll temtasiwn?

**III Diweddsglo**

Dim ond Duw a'r ysgrythurau all dy helpu di i orchfygu temtasiwn. Rheda i ffwrdd oddi wrth y diafol! Cer mor bell oddi wrtho ag y medri di. Darllena a dysga adnodau'r Beibl. Mae geiriau'r Beibl fel wal uchel i dy gadw di'n ddiogel rhag disgyn i demtasiwn.